# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn cyhoeddi: Awst 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2586A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol ac mae'n bwriadu cryfhau rhai agweddau ar ei reolaeth ariannol

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru 5

Mae'r Cyngor wedi diwygio dogfen ei strategaeth trawsnewid a'i gynllun ariannol tymor canolig a ategir gan drefniadau llywodraethu newydd 6

Mae'r Cyngor wedi gwella lefel ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n sylweddol 8

Mae'r Cyngor wedi cyflawni tanwariannau sylweddol gan wasanaethau yn 2020-21 9

Nid yw'r Cyngor wedi monitro ei arbedion yn ystod 2020-21, ond mae'n bwriadu ailgyflwyno prosesau monitro diwygiedig yn 2021-22 i helpu i gau ei fwlch o ran cyllid yn y dyfodol 11

Mae sefyllfa hylifedd y Cyngor yn gadarn, gan ei alluogi i gwrdd â'i rwymedigaethau ariannol pan ydynt yn ddyledus 12

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.

2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddom ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwylid wrth edrych tua'r dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn rhwng mis Chwefror 2021 a mis Mehefin 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

# Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol ac mae'n bwriadu cryfhau rhai agweddau ar ei reolaeth ariannol

## Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

7 Canfuom fel a ganlyn:

- Fe ysgwyddodd y Cyngor wariant ychwanegol a cholledion incwm sylweddol yn 2020-21 o ganlyniad i bandemig Covid. Mae'r mwyafrif o hyn wedi cael ei ad-dalu gan Lywodraeth Cymru ac felly nid yw wedi cael effaith niweidiol ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid grant ychwanegol sy'n gysylltiedig â Covid ar gyfer chwe mis cyntaf 2021-22, ond mae maint unrhyw gymorth ariannol pellach ac effeithiau tymor hwy'r pandemig ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn ansicr.
- Yn ystod 2020-21 mae'r Cyngor wedi cyflawni tanwariannau sylweddol sydd wedi'i alluogi i gael cynnydd o £50m mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i £144.5m o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021. Mae'r Cyngor wedi neilltuo £20m yn benodol ar gyfer Cronfa wrth Gefn Adfer o Covid 19 ac wedi rhoi £10m i mewn i Gronfa wrth Gefn Hapddigwyddiadau. Mae'r Cyngor yn bwriadu ailystyried ei gynllun ariannol tymor canolig yng ngoleuni'r sefyllfa ariannol well o lawer y canfu ei hun ynddi ar ddiwedd 2020-21.

**Arddangosyn 1: cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21 (Ffynhonnell: Adran gyllid y Cyngor)**

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol y Cyngor a'r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19 yn ôl yr amcangyfrif a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi ei wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £37 miliwn |

| | |
|---|---|
| Swm yr incwm y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi'i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £22 miliwn |
| Swm y cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19. | £57 miliwn |
| Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. | £2 filiwn |

## Mae'r Cyngor wedi diwygio dogfen ei strategaeth trawsnewid a'i gynllun ariannol tymor canolig a ategir gan drefniadau llywodraethu newydd

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

8 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a'r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae'r Cyngor yn bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.

Canfuom fel a ganlyn:

- Ar 15 Hydref 2020, fe gymeradwyodd y Cabinet ddogfen a oedd yn dwyn y teitl Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd. Roedd y ddogfen hon yn amlygu blaenoriaethau uniongyrchol y Cyngor o argyfwng COVID-19, y cynllun tymor hwy o adfer i drawsnewid, ac roedd yn fframwaith i ddisodli Strategaeth Abertawe Gynaliadwy.


  I ategu'r cynllun hwn mae strwythur Llywodraethu diwygiedig wedi cael ei gyflwyno gyda'r pwyllgorau canlynol yn gyfrifol am sicrhau y gwireddir uchelgeisiau'r strategaeth:

  - Grŵp Llywio Trawsbynciol a Thrawsnewid Sefydliadol – a gaiff ei gadeirio gan y Dirprwy Arweinydd gyda'r aelodaeth yn cynnwys y dirprwy Brif Weithredwr a'r 5 arweinydd ffrwd waith.
  - Bwrdd Strategaeth Adfer, Ail-lunio a Chyllideb – a gaiff ei gadeirio gan yr Arweinydd gyda'r aelodaeth yn cynnwys y ddau ddirprwy arweinydd, y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151

- Mae'r Cyngor yn diwygio'i gynllun ariannol yn flynyddol i helpu i oleuo'r broses flynyddol o bennu'r gyllideb. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ar gyfer y cyfnod rhwng 2022-23 a 2025-26, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 4 Mawrth 2021, yn gyson â'r ddogfen strategaeth "Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd". Mae'r cynllun yn nodi amcanestyniadau ariannol tymor canolig y Cyngor ac ar gyfer y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2022-23 a 2025-26, mae'r Cyngor yn rhagamcanu bwlch o ran cyllid o £20.8 miliwn.
- Mae'r ddogfen strategol newydd, y CATC a'r trefniadau llywodraethu diwygiedig yn dal i gael eu gwreiddio mewn arferion gweithredol. Gyda'r bwlch ariannol heriol a nodwyd yn y CATC bydd angen adolygu'r trefniadau diwygiedig hyn yn ystod 2021-22 i asesu pa mor effeithiol y maent yn cyrraedd nodau'r strategaeth a'r CATC.

**Arddangosyn 2: Mae gan y Cyngor gyfanswm bwlch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y cyfnod rhwng 2022-23 a 2025-26 o £20.8 miliwn (Ffynhonnell: Adroddiad ar y CATC i'r Cyngor yn 2021-22)**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y pedair blynedd ganlynol.



## Mae'r Cyngor wedi gwella lefel ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n sylweddol

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

9 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau'r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

### Canfuom fel a ganlyn

10 Yn 2019-20 fe wnaethom nodi yn ein hadroddiad bod gan y Cyngor lefel resymol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, ond bod angen i ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn yn ddiweddar gael ei reoli i gefnogi cynaliadwyedd ariannol.

11 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- roedd gan y Cyngor £77.0 miliwn o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy gan gynnwys Cronfa Gyffredinol o £9.4 miliwn ar 31 Mawrth 2019; ac
- roedd cronfa gyffredinol y Cyngor yn £12.4m ar 31 Mawrth 2016. Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019 roedd hon wedi lleihau i £9.4 miliwn oherwydd yr angen i ariannu gorwariannau heb eu cynllunio gan wasanaethau.

12 Roedd adroddiad alldro'r gyllideb 2020-21 yn dangos bod gwariant refeniw uniongyrchol ar y cyfan £27m yn llai na'r gyllideb ddiwygiedig. Digwyddodd y tanwariant hwn o ganlyniad i danwariant gan wasanaethau ynghyd â chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

13 Yn ystod 2020-21, oherwydd y tanwariant sylweddol roedd y Cyngor yn gallu cyflawni cynnydd o £50m mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i £144.5m. At ddiben yr adroddiad hwn, y diffiniad o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yw'r balansau yn y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn ysgolion a chronfeydd wrth gefn eraill sydd wedi'u clustnodi. Rhoddwyd £13m ychwanegol i mewn i gronfeydd wrth gefn ysgolion, £6.4m i mewn i gronfa wrth gefn trawsnewid TG, £20m i mewn i gronfa wrth gefn adfer o Covid-19 a £10.4m i mewn i gronfa wrth gefn hapddigwyddiadau.

14 Roedd adroddiad monitro'r gyllideb yn chwarter 3 ar gyfer 2020-21 yn rhagweld cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar ddiwedd y flwyddyn o £89.6m. Bydd y gwahaniaeth sylweddol rhwng y sefyllfa a ragwelwyd o ran cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar gyfer 2020-21 a'r sefyllfa alldro ar gyfer 2020-21 yn golygu y bydd angen i'r Cyngor ailystyried ei gynllun ariannol tymor canolig ac asesu sut orau i

ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn i gefnogi cynlluniau strategol a'r gyllideb refeniw mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

15 Er mai'r bwriad yw gostwng lefelau cronfeydd wrth gefn yn sylweddol dros y blynyddoedd sydd i ddod, rhagamcanir y bydd y rhain yn aros ar lefel resymol.

**Arddangosyn 3: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol (Ffynhonnell: Datganiad cyfrifon blynyddol)**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [2] | 410.1 | 424.5 | 456.9 | 445.2 | 418.4 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [3] | 68.1 | 68.4 | 77.0 | 93.8 | 144.5 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel % o gost net gwasanaethau [4] | 16.6% | 16.1% | 16.9% | 21.1% | 34.5% |

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni tanwariannau sylweddol gan wasanaethau yn 2020-21

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

16 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall

[2] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[3] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[4] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

## Yr hyn a ganfuom

17 Yn 2019-20 fe wnaethom nodi yn ein hadroddiad nad yw'r Cyngor wedi gallu cadw costau ei wasanaethau o fewn cyllidebau blynyddol am y tair blynedd ddiwethaf.

18 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- dros y blynyddoedd diwethaf roedd y Cyngor wedi gorwario ar lefel gwariant gwasanaethau yn erbyn ei gyllidebau refeniw ac i ryw raddau bu angen iddo ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu'r gorwariannau hyn; ac
- mae gan y Cyngor 4 cyfarwyddiaeth. Ers 2016-17, mae'r Cyfarwyddiaethau Adnoddau, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn aml wedi gorwario yn erbyn eu cyllideb. Fodd bynnag, mae Tlodi ac Atal (sydd bellach yn rhan o'r Gwasanaethau Cymdeithasol) a'r Gyfarwyddiaeth Lle fel rheol wedi rheoli eu gwariant blynyddol o fewn cyllidebau.

19 Yn 2020-21 fe gyflawnodd gwasanaethau'r Cyngor danwariant o £20.5m ac fe ddangosir y tanwariannau hyn isod:

- Gwasanaethau Cymdeithasol – tanwariant o £9.6m
- Addysg – tanwariant o £3.6m
- Adnoddau – tanwariant o £3.6m
- Lle  - tanwariant o £3.7m

20 Mae prif achosion y tanwariannau hyn yn gysylltiedig â Covid a chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn 2020-21 ac maent yn un o'r ffactorau sydd wedi galluogi'r Cyngor i gynyddu cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi'n sylweddol o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021.

**Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net (Ffynhonnell: adroddiadau alldro refeniw i'r Cabinet)**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant yng nghyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y pedair blynedd ddiwethaf.

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau | 418.8 | 433.2 | 443.3 | 468.6 |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol £ miliynau | 419.3 | 432.9 | 442.6 | 466.2 |
| Swm y gwarged/gorwariant ar y cyfan £ miliynau | Gorwariant o 0.5 | Gwarged o 0.3 | Gwarged o 0.7 | Gwarged o 2.4 |
| Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net | Gorwariant o 0.12% | Gwarged o 0.07% | Gwarged o 0.13% | Gwarged o 0.5% |

## Nid yw'r Cyngor wedi monitro ei arbedion yn ystod 2020-21, ond mae'n bwriadu ailgyflwyno prosesau monitro diwygiedig yn 2021-22 i helpu i gau ei fwlch o ran cyllid yn y dyfodol

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

21 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny'n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

22 Yn 2019-20 fe wnaethom nodi yn ein hadroddiad nad oedd gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, gan ychwanegu at bwysau ariannol yn ystod y flwyddyn:

- nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd ei dargedau arbedion yn unrhyw un o'r 5 mlynedd ddiwethaf. Yn ystod yr amser hwn mae cyfanswm o £83.3 miliwn o arbedion wedi cael eu hadnabod ond dim ond £62.7 miliwn a gyflawnwyd. Mae CATC y Cyngor wedi bod yn seiliedig ar y cyfan ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn cyflawni 80% o'r arbedion wedi'u cynllunio. Ar gyfartaledd dros y 5 mlynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi cyflawni 75.2% o'i arbedion wedi'u cynllunio.
- roedd y Cyngor yn rhagamcanu, o'r £12.6 miliwn o arbedion a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer 2019-20, na fyddai £2.0 miliwn (15.9%) yn cael eu cyflawni.

23 O ganlyniad i bandemig Covid-19 ar gyfer 2020-21 fe roddodd y Cyngor y gorau i fonitro'r modd yr oedd yn cyflawni arbedion wedi'u cynllunio. Roedd y cynllun ariannol tymor canolig a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 4 Mawrth 2021 yn nodi bwlch o ran cyllid o £20.8m ar gyfer y cyfnod o 4 blynedd hyd at 2025-26. Bydd yn bwysig bod y gweithdrefnau llywodraethu ariannol newydd yn ailgyflwyno trefn gadarn ar gyfer monitro arbedion wedi'u cynllunio.

24 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw defnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli ei gyllideb yn gynaliadwy a bydd llenwi'r bwlch o ran cyllid a adnabuwyd trwy gyflawni arbedion wedi'u cynllunio'n hollbwysig i osgoi'r angen i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gefnogi pwysau refeniw blynyddol.

**Arddangosyn 5: arbedion a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio (Ffynhonnell: adroddiadau ar y gyllideb ac adroddiadau alldro blynyddol i'r Cabinet)**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o'i gynlluniau arbedion yn ystod y cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm arbedion wedi'u cynllunio mewn £ miliynau | 22.5 | 18.7 | 16.5 | 12.6 |
| Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd mewn £ miliynau | 21.9 | 12.7 | 10.3 | 10.6 |
| Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd mewn £ miliynau | 0.6 | 6.1 | 6.2 | 2.0 |
| Canran yr arbedion a gyflawnwyd | 97% | 67% | 62% | 84% |

## Mae sefyllfa hylifedd y Cyngor yn gadarn, gan ei alluogi i gwrdd â'i rwymedigaethau ariannol pan ydynt yn ddyledus

**Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig**

25 Pam ei bod yn bwysig pwyso a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):

- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
- gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.

- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

26 Canfuom fel a ganlyn:

- Mae sefyllfa hylifedd y Cyngor wedi bod yn gwella ers 2015-16 gan gyrraedd brig o 3.5 yn 2018-19 sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn golygu bod gwerth asedau cyfredol wedi bod yn sylweddol uwch na gwerth rhwymedigaethau cyfredol ac yn dynodi bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau ariannol pan ydynt yn dod yn ddyledus heb yr angen am fenthyciadau byrdymor.
- Mae'r Cyngor yn mabwysiadu dull darbodus o reoli trysorlys, gan flaenoriaethu risg isel cyn adenillion ar fuddsoddiadau a buddsoddi arian sydd dros ben dim ond pan fo hylifedd digonol yn cael ei gynnal.
- Mae cymhareb hylifedd y Cyngor yn hanesyddol wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau Cymru sy'n dynodi ei fod mewn sefyllfa ariannol gymharol gryf.

**Arddangosyn 6: cymhareb cyfalaf gweithio rhwng 2015-16 a 2019-20 (Ffynhonnell: Datganiadau cyfrifon blynyddol)**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol £ miliynau[5] | 128.4 | 134.2 | 128.5 | 225.2 | 213.1 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol £ miliynau[6] | 71.9 | 93.1 | 57.9 | 64.8 | 74.5 |
| Cymhareb Hylifedd | 1.8 | 1.4 | 2.2 | 3.5 | 2.9 |

[5] Mae Asedau Cyfredol yn cynnwys: Buddsoddiadau Byrdymor; Asedau a ddelir i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Byrdymor; ac Arian Parod a'i gyfwerth

[6] Mae Rhwymedigaethau Cyfredol yn cynnwys: Benthyciadau Byrdymor; Credydwyr Byrdymor; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.